Ms Audrey Somerton Edwards
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Ceredigion

Dyddiad: 09 Gorffennaf 2025

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Ymweliad Archwiliad Gwelliant â gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau'r ymweliad Archwiliad Gwelliant â Chyngor Sir Ceredigion a gynhaliwyd rhwng 13 a 14 Mai 2025. Archwiliad Gwelliant yn dilyn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Mawrth 2023 oedd hwn.

Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; llinellau ymholi allweddol; a'r safonau ansawdd yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

Canolbwyntiodd yr Archwiliad Gwelliant ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd canlynol y nodwyd bod angen eu gwella yn ystod ein Harolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Mawrth 2023:

| Egwyddor | Meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Mawrth 2023 | Cynnydd a nodwyd yn ystod yr archwiliad gwelliant |
|---|---|---|
| Pobl | Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod lleisiau pobl yn greiddiol i'r gwaith y mae'n ei wneud â phobl. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |
| | Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr yn cydymffurfio'n gyson â'r ddyletswydd gyffredinol i | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |

| | | |
|---|---|---|
| | hybu llesiant y gofalwr, drwy gynnig asesiadau gofalwyr penodol i bobl er mwyn trafod pa gymorth sydd ei angen arnynt, a chofnodi'r rhesymau dros wrthod asesiad fel mater o drefn. | |
| | Rhaid i'r awdurdod lleol gynyddu'r ddarpariaeth seibiannau byr ledled y sir er mwyn helpu i ddiwallu anghenion llesiant rhieni a gofalwyr. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach |
| | Rhaid i adroddiad blynyddol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol. | Ni wnaed unrhyw welliannau – mae angen cymryd camau gweithredu |
| | Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried ei strategaeth ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol yn ofalus er mwyn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod ganddo weithlu digonol a chynaliadwy, sydd â'r capasiti a'r gallu i gyflawni cyfrifoldebau statudol yn gyson. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach |
| | Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff ymarfer ei oruchwylio mewn modd cadarn gan y tîm rheoli ac y cynhelir sgyrsiau myfyriol, gan gofnodi digon o wybodaeth i ddangos y penderfyniadau a wnaed. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |
| | Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ganddo weithlu cymwys a hyderus. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |

| | | |
|---|---|---|
| | Gall fod yn anodd trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar gyfer gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant oherwydd diffyg cyfleusterau addas.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol lunio a gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd cadarn.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau yr ymatebir i gwynion yn gyson yn unol â'r amserlenni a bennir yn “Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014", a bod y gwersi a ddysgir o ymateb i gwynion yn ysgogi gwelliannau. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal.<br><br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal.<br><br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |
| Atal | Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau presennol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael ymateb amserol a chyson pan fyddant yn cysylltu ag ef.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd y camau gofynnol i sicrhau cydymffurfiaeth ag amserlenni ar gyfer adolygiadau statudol a sicrhau y caiff pob gweithiwr proffesiynol perthnasol ei wahodd i gymryd rhan.<br><br>Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio mewn modd strategol a gweithredol gyda'i bartneriaid i ystyried ffyrdd o liniaru’r diffyg gofal cartref ym mhob rhan o'r sir.<br><br>Dylai'r awdurdod lleol ymgysylltu â phobl sy'n wynebu anawsterau synhwyraidd er mwyn cael gwybod | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal.<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal.<br><br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |

| | | |
|---|---|---|
| | eu barn er mwyn i'r farn honno ddylanwadu ar y broses o ddatblygu gwasanaethau. | |
| Llesiant | Gellid atgyfnerthu'r cofnodion drwy fynd ati'n gyson i nodi tystiolaeth o'r holl gamau rhesymol a gymerwyd i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y broses diogelu oedolion.<br><br>Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau presennol i sicrhau y caiff canlyniadau atgyfeiriadau eu rhannu â'r unigolyn a roddodd wybod am yr achos ac y caiff cofnodion cyfarfodydd strategaeth eu rhannu â'r unigolion a oedd yn bresennol mewn modd amserol.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau goruchwylio cadarn ar waith ar gyfer arferion diogelu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r ddogfennaeth sy'n gysylltiedig ag asesiadau oedolion er mwyn sicrhau ei bod yn dilyn yr holl ofynion statudol craidd a amlinellir yn Rhan 3 o'r Cod Ymarfer (Asesu Anghenion Unigolion).<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu ei bolisi cofnodi er mwyn cynnwys trefniadau goruchwylio cadarn gan reolwyr i wneud yn siŵr y caiff pob cofnod ei gynnal yn briodol. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal.<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal.<br><br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal.<br><br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth | Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei strategaeth gyfathrebu er mwyn sicrhau bod ei fodel ar gyfer y rhaglen Llesiant Gydol Oes (LlGO) yn ddealladwy ac yn hygyrch. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |

## 2. Crynodeb

- Mae sylfaen gref a thrywydd clir ar gyfer gwella yn yr awdurdod lleol ac mae'n cydnabod yr angen i ganolbwyntio'n barhaus ar ymgorffori arferion da ym mhob rhan o'r gwasanaethau yn gyson.
- Mae'r arweinyddiaeth o fewn y gwasanaethau cymdeithasol yn amlwg ac yn ymatebol, ac maent yn mabwysiadu diwylliant o lesiant a chynnydd proffesiynol.
- Mae'r awdurdod lleol yn ymgorffori egwyddorion barn, dewis a rheolaeth yn yr ymarfer. Mae'r defnydd o fframweithiau fel Arwyddion Diogelwch yn adlewyrchu dull strwythuredig o gasglu barn unigolion ac yn teilwra gwasanaethau at yr hyn sydd bwysicaf i bobl.
- Mae ffocws strategol clir ar atal pobl rhag gorfod cael gofal statudol hirdymor, hyrwyddo gwydnwch mewn cymunedau lleol a diwylliant o ymarfer ac ethos a rennir er mwyn helpu pobl i wireddu eu potensial. Mae annog a helpu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt i fod yn annibynnol ac i gymryd rhan mewn cymdeithas yn agwedd gadarnhaol ar draws y gwasanaethau.

## 3. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**<u>Pobl</u>**

### Cryfderau

- Mae arweinwyr Cyngor Sir Ceredigion yn meithrin diwylliant lle y caiff cyflogwyr eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso yn seiliedig ar ethos 'Tîm Ceredigion' cryf. Mae hyn yn **ymarfer cadarnhaol** gan fod arweinwyr yn modelu ymddygiadau sy'n meithrin amgylchedd gwaith cynhwysol.
- Mae Ceredigion yn gymuned Oed-gyfeillgar, sy'n cefnogi dealltwriaeth a rennir yn yr awdurdod lleol, gan helpu oedolion eraill i aros yn iach ac yn weithgar.
- Mae gan yr awdurdod lleol weithlu ymroddedig sy'n awyddus iawn i gefnogi pobl a gweithio yng Ngheredigion. Mae'r staff yn cael cymorth o ansawdd da gan eu rheolwyr, gan gynnwys cyfleoedd goruchwylio ffurfiol ac anffurfiol.

- Mae'r gwasanaeth ar gyfer pobl o bob oed yn gyfle da i hyrwyddo cysondeb a pharhad i bobl, er enghraifft wrth i bobl dyfu o fod yn blant i fod yn oedolion. Mae'r strwythur llywodraethu a rheoli yn hyrwyddo prosesau cyfathrebu da ym mhob rhan o'r gwasanaethau.
- Disgwylir y bydd strategaeth "tyfu eich hun" y Cyngor ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, sydd ar waith ers 2023, yn mynd i'r afael â gwaith cynllunio olyniaeth yn y tymor canolig a'r tymor hwy. Mae trafodaethau'n parhau gyda Phrifysgol Aberystwyth ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno cwrs Gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol. Mae'n amlwg bod datblygu'r gweithlu yn flaenoriaeth, gan fod y staff yn cymryd rhan weithredol mewn llwybrau dysgu strwythuredig fel Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus ac e-ddysgu.
- Caiff barn pobl ei chynrychioli drwy asesiadau cymesur a gynhelir gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, ac mae'r naratif perthnasol yn amlinellu amgylchiadau personol yn glir. Mae Ceredigion yn cynnal nifer mawr o asesiadau. Mae'r rhain fel arfer yn seiliedig ar faterion, sy'n golygu bod nifer o asesiadau yn canolbwyntio ar fater unigol, er enghraifft cais am gymorth ymarferol yn y cartref. Gall y dull hwn sicrhau eglurder a ffocws ac mae'n dangos bod gweithwyr proffesiynol yn ymatebol i anghenion newidiol.
- Mae'r prosesau asesu ac adolygu yn nodi dewisiadau, cyflyrau iechyd a chyd-destun cymdeithasol pobl fel mater o drefn. Yn ogystal â'r ffocws ar gryfderau, galluedd ac anghenion unigolyn, mae cyd-destun clir a dealltwriaeth o fywyd yr unigolyn hwnnw.
- Mae'r enghreifftiau o arferion gorau yn dangos bod dull seiliedig ar gryfderau ar waith wrth sgwrsio am 'Yr Hyn sy'n Bwysig', a bod canlyniadau'n cael eu nodi ar y cyd â phobl yn ogystal â'r ffordd y caiff y canlyniadau hynny eu cyflawni, gan sicrhau bod cysylltiad clir rhwng gwybodaeth a gesglir a'r ffordd y gellir darparu gofal a chymorth i gyflawni canlyniadau personol. Mae'r rheolwyr yn cymeradwyo asesiadau fel mater o drefn, sy'n bwysig er mwyn sicrhau ansawdd mewn perthynas â llesiant a diogelwch pobl a datblygiad proffesiynol.
- Mae ysgogiadau ar system TG yr awdurdod lleol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn ffordd ddefnyddiol o atgoffa ymarferwyr i egluro gwybodaeth bersonol, fel dewis iaith, dewisiadau o ran y Gymraeg, galluedd meddyliol a chydsyniad, mewn ffordd ragweithiol.
- Pan nad oes gan bobl y galluedd i wneud penderfyniadau, caiff hyn ei ystyried fel mater o drefn a chaiff pobl eu cefnogi a'u cynrychioli'n briodol. Mae ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gref o egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005, gan gymryd amser i ystyried anghenion, dymuniadau ac amgylchiadau pobl. Mae'r asesiadau'n adlewyrchu ymrwymiad i archwilio'r opsiynau lleiaf cyfyngol ac maent yn seiliedig ar ymgysylltu â'r unigolyn a, lle y bo'n briodol, ei gynrychiolwyr, mewn ffordd ystyrlon. Mae'r dull hwn yn sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud er budd pennaf unigolion, gyda thystiolaeth glir bod proses ddadansoddi ystyrlon a chwilfrydedd proffesiynol ar waith.

- Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd wrth leihau'r ôl-groniad o asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), gan sicrhau y cânt eu hawdurdodi mewn modd amserol a phriodol. O ganlyniad, mae mwy o bobl yr oedd angen rhoi'r mesurau diogelu hyn ar waith ar eu cyfer bellach yn cael eu hamddiffyn yn briodol.
- Mae cynllun gweithlu'r awdurdod lleol yn amlinellu ymrwymiad i hyrwyddo gweithlu dwyieithog, ac mae data ar gael i nodi siaradwyr Cymraeg a lefelau sgiliau Cymraeg. Mae amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg a chyrsiau e-ddysgu Cymraeg gorfodol ar gyfer pob aelod o'r staff.
- Mae ymrwymiad i gynnig yr opsiwn o gael gwasanaeth yn Gymraeg i bobl, a gwelsom dystiolaeth bod y cynnig yn cael ei wneud. Mae system TG yr awdurdod lleol yn cynnwys ysgogiadau i atgoffa ymarferwyr i nodi dewis iaith, ac mae pwyslais ar y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a dogfennaeth ddwyieithog, gan sicrhau hygyrchedd a pharch at hunaniaeth. Mae'n bwysig bod dewis iaith pobl yn cael ei nodi, a bod pobl yn cael cynnig cyfathrebu yn eu dewis iaith.
- Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo dewis a rheolaeth drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol yn effeithiol. Mae'r cofnodion yn adlewyrchu dulliau creadigol o ddarparu adnoddau, ac mae taliadau uniongyrchol yn opsiwn poblogaidd a ddefnyddir yn aml. Mae strwythurau ar waith i gefnogi'r gwasanaeth taliadau uniongyrchol yn ogystal â chynorthwywyr personol, sy'n cefnogi ac yn galluogi trefniadau gofal mwy annibynnol ac wedi'u personoli ac yn cydbwyso'r galw am ddarpariaeth gofal uniongyrchol. Mae prinder cynorthwywyr personol yn cyfyngu ar y gallu i gynnig trefniadau llawn y gwasanaeth taliadau uniongyrchol mewn rhai achosion, sy'n effeithio ar allu pobl i gael gofal wedi'i bersonoli.

**Meysydd i'w Gwella**

- Dywedodd rhai o'r staff y dylai fod mwy o gyfleoedd i wella'r broses o rannu gwybodaeth drwy uwch-reolwyr ac i ddatblygu trefniadau cydweithio ar draws timau. Dywedodd rhai o'r staff hefyd y gallai ardaloedd desgiau poeth dynodedig ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol annog mwy o staff i fynd i'r swyddfeydd ac felly wella'r trefniadau cydweithio a chynnig cyfleoedd gwell i gynnal sgyrsiau cyfrinachol yn seiliedig ar waith. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried yr adborth hwn gan y staff.**
- Mae'r llwyth gwaith yn uchel mewn nifer o feysydd gwasanaeth, ond eir i'r afael â hyn yn gyson mewn sesiynau goruchwylio. Yn ein harolwg staff, dywedodd 85% a 90% o'r ymatebwyr, yn y drefn honno, eu bod yn gallu rheoli eu llwyth gwaith ac yn cael eu cefnogi i wneud hynny. Cafodd canlyniadau arolwg staff 2024 Cyngor Sir Ceredigion eu rhannu â rheolwyr yn ddiweddar. Er bod hyn yn cyd-fynd ag ymatebion cadarnhaol tebyg yn arolwg staff AGC, nododd canran uchel o'r staff a ymatebodd i'r arolwg fod straen yn gysylltiedig â gwaith yn effeithio ar eu hiechyd meddwl. **Bydd angen i reolwyr ddeall yr**

**adborth hwn a dylent sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi'n llawn i fynd i'r afael â'r canlyniad.**

- Cyfeiriodd rhai o'r staff at yr angen am drefniadau cludiant gwell er mwyn i bobl allu manteisio ar y ddarpariaeth, prinder trafnidiaeth gyhoeddus mewn cymunedau cefn gwlad a diffyg mynediad i bobl anabl ar y darpariaethau gwasanaeth cyhoeddus. At hynny, prin yw'r cludiant sydd ar gael gan yr awdurdod lleol ac mae'r cludiant hwnnw yn newid yn aml, a all amharu ar deuluoedd. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i fynd i'r afael â'r maes hwn.**

**<u>Atal</u>**

**Cryfderau**

- Mae buddsoddiad mewn atal ac ymyrryd yn gynnar yn lleihau cyfraddau uwchgyfeirio pecynnau gofal. Mae hyn yn erbyn cyd-destun cefndirol o gynnydd yn y galw a chymhlethdod y boblogaeth.
- Mae amrywiaeth o wybodaeth ar gael i bobl, fel Taflen Ffeithiau i Ofalwyr a Cherdyn Gofalwyr Ceredigion. Mae staff y ganolfan gyswllt gorfforaethol (Clic) yn darparu gwasanaeth pwynt cyswllt unigol, ac maent yn cwblhau hyfforddiant wedi'i dargedu er mwyn eu helpu i nodi ymholiadau gofal cymdeithasol ac ymateb iddynt. Caiff galwadau eu brysbennu gan staff sy'n deall eu cymhlethdod, ac maent yn meddu ar y wybodaeth i atgyfeirio galwadau'n effeithiol neu eu huwchgyfeirio'n briodol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod pobl yn cael gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf cadarnhaol a llawn gwybodaeth, sy'n cyfrannu at brofiad ymatebol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o'r cychwyn cyntaf.
- Yna, caiff atgyfeiriadau at ofal cymdeithasol eu brysbennu ymhellach gan weithwyr amlddisgyblaethol proffesiynol sy'n nodi'r “hyn sy'n bwysig” i unigolion, gan sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion cyn gynted â phosibl. Caiff y dull hwn ei gefnogi gan y model SIF, sy'n sicrhau bod gweithwyr medrus yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf, gan wneud yn siŵr bod asesiadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol a lleihau'r tebygolrwydd y caiff yr unigolyn ei uwchgyfeirio.
- Mae Canolfan Byw’n Annibynnol Penmorfa yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol**. Lansiwyd y gwasanaeth hwn yn 2024 fel adnodd newydd i helpu unigolion yng Ngheredigion i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae'n cyfuno amrywiaeth o ddatrysiadau a gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau gofal cymdeithasol, iechyd a sefydliadau trydydd parti. Er enghraifft, mae ystafell nam ar y golwg ddynodedig sy'n cynnwys cyfarpar a thechnoleg, ac mae'r Tîm Nam ar y Golwg yn trefnu diwrnodau gwybodaeth a chymorth yn y ganolfan. Caiff grŵp galw heibio a chymorth i ofalwyr a’r rhai sy’n derbyn gofal a Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol galw heibio hefyd eu cynnal yn y ganolfan. Mae arddangosiadau Gofal Wedi’i Alluogi drwy Dechnoleg, a gwybodaeth am wasanaeth teleofal a thechnoleg gynorthwyol

hefyd ar gael. Gwelsom enghreifftiau o bobl yn cael amrywiaeth o gymorth ymarferol a chymorth wedi'i alluogi gan dechnoleg, fel larymau gofal a synwyryddion cwympiadau.

- Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr yn darparu gwybodaeth a chyngor hygyrch i ofalwyr di-dâl. Mae'r tîm hwn hefyd yn cynnig gwasanaeth seibiannau byr ac yn darparu Cardiau Gofalwyr i ofalwyr lleol, sy'n cydnabod rolau gofalwyr ac yn cynnig amrywiaeth o ostyngiadau a chynigion.
- Mae mwy o ofalwyr micro ar gael i gefnogi pobl mewn cymunedau. Unigolion hunangyflogedig yw'r rhain fel arfer a all ddarparu cymorth pwrpasol, sy'n rhoi dewis i bobl o ran y ffordd y caiff eu cymorth ei ddarparu.
- Mae swyddog sicrhau ansawdd mewn swydd yn yr awdurdod lleol sy'n sefydlu ffordd gyson o archwilio gwaith ar draws y gwasanaeth er mwyn nodi arferion da a'r meysydd hynny y mae angen eu gwella. Mae'r swyddog yn gweithio gyda phob tîm ac yn rhoi adborth i'r uwch-dîm arwain er mwyn hyrwyddo diwylliant o ddysgu a gwella yn barhaus. Ar y cyd â data gwybodaeth am berfformiad dibynadwy, mae'r awdurdod lleol yn deall effeithiolrwydd ac ansawdd y gwasanaeth. Mae cyfle i nodi a rhannu gwersi a ddysgwyd yn ehangach mewn digwyddiadau tîm, a sefydlwyd fforwm gwasanaeth cyfan yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod amser gwarchodedig yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygu a dysgu.
- Nid yw rhai o'r cwynion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu datrys o fewn yr amserlenni safonol; fodd bynnag, mae hyn yn cydymffurfio â'r rheoliadau statudol o hyd pan fo Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflwyno awdurdodiad ysgrifenedig am estyniad.

**Meysydd i'w Gwella**

- Gall fod rhestrau aros ar gyfer rhai gwasanaethau fel therapyddion galwedigaethol, a chaiff y rhain eu rheoli drwy system flaenoriaethu Coch Melyn Gwyrdd er mwyn sicrhau bod y cymorth yn ymatebol ac mor deg â phosibl. Gall heriau wrth ddod o hyd i wasanaethau, fel gofal yn y cartref mewn rhai ardaloedd gwledig a darpariaeth seibiant byr, roi pwysau ychwanegol ar ofalwyr anffurfiol a chynyddu'r risg y bydd sefyllfaoedd yn cyrraedd argyfwng. Mae nifer mawr o bobl yn aros am wasanaeth cymorth cartref, ond mae gan yr awdurdod lleol wasanaeth pontio a all ddiwallu'r angen hwn ar gyfer rhai pobl. Yr her sy'n deillio o hyn yw'r effaith ar y gwasanaeth hwn pan fo'r oedi wrth nodi gwasanaeth cymorth cartref yn cynyddu. Mae argaeledd darparwyr a all ddarparu gwasanaeth mewn cymunedau gwledig yn her barhaus, ond mae dau ddarparwr newydd wedi ymuno â'r fframwaith gomisiynu yn ddiweddar. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn cael gwasanaeth o'r un safon, ni waeth ble maent yn byw, er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb i'r rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt.**

- Mae'r awdurdod lleol yn adolygu anghenion gofal a chymorth pobl hŷn yr aseswyd eu bod yn unigolion â blaenoriaeth, sy'n golygu y gallant gael cymorth priodol wrth i'w amgylchiadau newid. Mae nifer o enghreifftiau o ofynion gofal a chymorth yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd a llesiant newidiol. Fodd bynnag, mae'r oedi cyn adolygu cynlluniau gofal a chymorth nifer o bobl yn bryder parhaus. Pan na chaiff adolygiadau eu cynnal, mae risg bosibl na chaiff anghenion newidiol pobl eu diwallu ac y bydd angen rhoi ymyriadau mwy dwys ar waith yn y pen draw. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod anghenion gofal a chymorth pobl yn cael eu hadolygu mewn modd amserol.**

**<u>Llesiant</u>**

**Cryfderau**

- Mae ffocws cydweithredol ar gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain, sy'n seiliedig ar asesiadau prydlon a chynhwysfawr a chymorth gan grwpiau proffesiynol amrywiol.
- Mae'r cofnodion yn cysylltu manylion pwysig am ganlyniadau personol â'r cymorth ymarferol a ddarperir yn aml gan weithwyr gofal. Mae proses rannu gwybodaeth glir rhwng ymarferwyr sy'n comisiynu cymorth â'r rhai sy'n darparu gofal uniongyrchol (fel gweithwyr cymorth cartref) mewn perthynas â manylion penodol y gofal personol sydd ei angen yn y cynlluniau gofal a chymorth.
- Defnyddir model gweithio clir yn gyson wrth ryngweithio ac mae hyn yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol**, sy'n dangos dull seiliedig ar gryfderau a chydgynhyrchu. Mae hyn yn amlwg yn yr enghreifftiau o ymarfer, sy'n amrywio o ddefnyddio iaith syml yn yr ysgogiadau a ddefnyddir ar y system TG i gynrychioli barn unigolyn yn gyson ar draws gweithgareddau gofal cymdeithasol. Mae defnyddio'r fframwaith Arwyddion Diogelwch yn helpu i hyrwyddo diogelwch a llesiant fel nodweddion sy'n ganolog i'r ymarfer.
- Ceir arferion da yn y tîm diogelu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Ymatebir i gwynion yn brydlon ac yn briodol ar y cyfan, a chaiff barn pobl ei chynnwys wrth ddatblygu cynlluniau diogelwch. Mae'r enghreifftiau o arferion gorau yn dangos bod pwyslais ar ddadansoddi a gwneud penderfyniadau, blaenoriaethu diogelwch a hybu llesiant pobl.
- Ceir presenoldeb amlasiantaethol da mewn cyfarfodydd strategaeth a thystiolaeth o gyfathrebu a chyfranogiad da gan randdeiliaid allweddol mewn trafodaethau am ddiogelu. Mae cydweithio amlasiantaethol effeithiol yn sicrhau ymatebion cydgysylltiedig, ac mae diwylliant diogelu cadarn yn ymgorffori'r egwyddor bod cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu pobl.
- Ceir diwylliant cyffredinol o gyfrifoldeb a rennir a gwelliant parhaus mewn perthynas â dysgu. Mae'r trefniadau goruchwylio yn dangos safon dda o ymarfer sy'n fyfyriol, yn gefnogol ac yn canolbwyntio ar ddatblygu, a rhoddir

sylw clir i lesiant, rheoli tasgau a chysondeb sefydliadol. Mae hyn yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol**. Mae'r goruchwylwyr yn creu amgylchedd lle mae'r staff yn teimlo'n ddiogel i fynegi pryderon ac archwilio heriau. Gellid gwella hyn drwy ddull gweithredu cyson. Defnyddir templedi gwahanol ar draws y gwasanaeth, ac mae bylchau o ran cysoni dysgu â nodau arfarnu ar gyfer rhai aelodau o'r staff.

**Meysydd i'w Gwella**

- Mae oedi sylweddol pellach o ran cyhoeddi adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr ar gyfer 2024-25. **Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Rhaid i'r adroddiad blynyddol hwn gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol.**
- Nododd yr awdurdod lleol ei fod yn rhannu canlyniadau ymholiadau diogelu oedolion â'r unigolyn a roddodd wybod am yr achos, ond mae ansicrwydd ynghylch a yw'r broses hon ar waith ar gyfer ymholiadau a gaiff eu dyrannu i bartneriaid iechyd. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarfer diogelu oedolion yn bodloni gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn gyson yn y maes ymarfer hwn.**
- Er bod trefniadau awdurdodi a goruchwylio prosesau rheoli achosion i'w gweld, nid oes deialog goruchwylio prosesau rheoli achosion ffurfiol i'w gweld bob amser. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff prosesau goruchwylio ffeiliau achos eu cofnodi fel mater o drefn.**

## Partneriaethau

**Cryfderau**

- Er y gall cydberthnasau strategol rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fod yn heriol pan fo angen ystyried cyllid, mae uwch-reolwyr o bob rhan o'r awdurdod lleol a phartneriaid wedi rhoi dull a rennir ar waith o gydgynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau ataliol. Mae hyn yn cefnogi pobl i fyw'n iach ac yn annibynnol, heb orfod troi at wasanaethau statudol mwy ffurfiol. Mae'r gwaith rhyngasiantaethol yn effeithiol ar y cyfan, ac yn amlwg yn y timau brysbennu, nam ar y golwg a llesiant meddyliol, er enghraifft. Mae enghreifftiau o ddull hyblyg, amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gydweithio. Mae therapyddion galwedigaethol yn aml yn darparu pwynt cyswllt cyntaf priodol i bobl ag anghenion acíwt, gan ddarparu gwasanaeth gwerthfawr pan fydd angen cymorth cyflym ar bobl.

**Meysydd i'w Gwella**

- Mae'r synergedd rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf ac mae llai o gyd-leoli gan fod staff gofal iechyd wedi symud yn ôl i safleoedd iechyd. Dywedodd rhai o'r staff fod y prosesau cyfathrebu yn gadarnhaol o hyd, ond dywedodd rhai fod hyn wedi creu diwylliant lle mae rhwyg wedi ymddangos yn y timau amlddisgyblaethol, yn enwedig y gwasanaeth therapi galwedigaethol. Pan fydd staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio, gellir sicrhau canlyniadau gwell i bobl drwy rannu gwybodaeth ac arbenigedd. **Dylai'r awdurdod lleol weithio gyda'r bwrdd iechyd lleol i ddeall sut mae llai o gyd-leoli a newidiadau i drefniadau gweithio amlddisgyblaethol yn effeithio ar ansawdd a chydlyniant gofal a chymorth i bobl, a mynd i'r afael â hyn.**
- Dywedodd rhai o'r staff fod effeithiolrwydd gweithio gyda'r heddlu yn amrywio, a bod camddealltwriaeth weithiau wrth weithio gyda phobl sy'n byw gydag anabledd dysgu neu niwrowahaniaeth ac anghytundeb ynghylch pwy yw'r asiantaeth arweiniol wrth ymdrin ag ymholiadau diogelu oedolion. **Dylai'r awdurdod lleol weithio gyda'r heddlu i wella'r maes ymarfer hwn.**
- Ar hyn o bryd, mae prinder meddygon 'Adran 12'[1] yn y bwrdd iechyd a gwnaethom nodi bod hyn yn achosi oedi wrth ymateb i bobl mewn argyfwng. Hefyd, mae llai o gymorth ar gael gan y tîm argyfwng 24 awr. **Dylai'r awdurdod lleol weithio gyda'r bwrdd iechyd i wella'r maes ymarfer hwn.**

## 4. Y camau nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol.

Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

[1] O dan Adran 12(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, yn yr achosion hynny lle mae angen dau argymhelliad meddygol i dderbyn unigolyn â salwch meddwl i'r ysbyty, neu roi trefniadau gwarcheidiaeth ar waith ar ei gyfer, mae'n ofynnol i un o'r atgyfeiriadau hynny gael ei wneud gan ymarferydd a gymeradwywyd at ddibenion yr adran honno gan Weinidogion Cymru

## 5. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 25 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pump.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau â phum person sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr di-dâl ac ymatebodd pedwar person i'n harolwg.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau a grwpiau ffocws â 51 o gyflogeion yr awdurdod lleol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr tîm. Ymatebodd 55 o gyflogeion i'n harolwg.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.

  Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 6. Y Gymraeg

Roedd y tîm arolygu yn cynnwys arolygydd a oedd yn siarad Cymraeg, gan alluogi AGC i ddarparu'r cynnig rhagweithiol o ran cynnal rhan o'r broses arolygu yn Gymraeg.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr archwiliad gwelliant hwn yn Gymraeg.

## 7. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

## 8. Rhestr termau

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gamau gweithredu addas, mae risg y gall yr awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |

| | |
|---|---|
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodiad y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am ‘Yr Hyn sy'n Bwysig’ yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r ‘hyn sy'n bwysig’ iddynt eu clywed. |

**Tabl Diffinio Meintiau**

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos i 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Nifer bach | Llai nag 20% |
| Nifer bach iawn | Llai na 10% |